

CYFFES FFYDD

21. Am yr angenrheidrwydd o waith yr Ysbryd Glân yn cymhwyso yr iachawdwriaeth.

Y mae cymhwyso yr iachawdwriaeth mor angenrheidiol a'i gwneuthur, er achub pechaduriaid.

Darparu a gwneuthur iachawdwriaeth heb ei chymhwyso fuasai'n beth ofer. Y mae yn rhaid ei chymhwyso gan Berson anfeidrol yn gystal a'i gwneuthur; ni fyn dynion ei derbyn na'i defnyddio, er ei bod yn barod (a). A Duw yn rhagweld hynny erioed wrth arfaethu yn ei gariad tragwyddol achub pechaduriaid, nid yn unig a osododd wneuthur iachawdwriaeth gyflawn iddynt, ond hefyd yn yr un drefn dragwyddol a osododd yr Ysbryd Glân i'w chymhwyso fel na cholliid yr un o wrthrychau y cariad o ddiffyg cymhwyso, mwy nag o ddiffyg darparu a gwneuthur iachawdwriaeth iddynt (b). Y mae yr Ysbryd yn Berson anfeidrol, ac yn caru y gwrthrychau yn ogymaint a'r Tad a'r Mab, ac mor ffyddlon i gyflawni yr hyn a roddwyd iddo i'w wneuthur yn y cyfamod tragwyddol (c).

21. Of the Necessity for the Work of the Holy Spirit to Apply the Plan of Salvation.

To save sinners, it is as necessary to apply as it was to provide the plan of salvation. To prepare and provide a plan of salvation without applying it would have been a vain thing. It must be applied, as well as provided, by an infinite Person. Men will not accept or make use of it, though it be prepared (a); and God, foreseeing this from eternity, in decreeing, in his

eternal love, the salvation of sinners, not only appointed his Son to provide a full salvation for them, but also, in the same eternal plan, appointed the Holy Ghost to apply it; that none of the objects of his love should perish for want of applying any more than for want of preparing and providing it (b). The Spirit is an infinite Person, and loves the objects of the divine mercy as much as the Father and the Son do, and is equally faithful to fulfil the work given him to do in the eternal covenant (c).

(a) Ioan/John 3:3,5, 5:40, 6:44, 8:24; Luc/Luke 13:3.

(b) Jer. 31:33-34; Esec./Ezek. 11:19-20, 36:25-27; Ioan/John 6:37; Luc/Luke 15:4-10; Phil. 2:13.

(c) Ioan/John 16:7-9, 14; Rhuf./Rom. 15:13,30; 1 Cor. 2:10; Esea/Isa. 63:10; Jer. 31:3; Eff./Eph. 4:30; 2 Thes. 2:13; Dat./Rev. 22:17.